Bod yn Barod i'r Ysgol

Sut i baratoi ar gyfer yr ysgol uwchradd neu ôl-gynradd

Mwy na thebyg nad oes gennych unrhyw syniad ble mae'r amser wedi mynd, ond yn sydyn mae gennych blentyn sydd yn dechrau eu hysgol nesaf.

Efallai fod eich plentyn yn mynd yn fwy ac yn fwy annibynnol, ond rhieni a'r rheiny sydd a rôl rianta yw un o addysgwyr pwysicaf plant o hyd. Bydd gennych bob amser ran allweddol i'w chwarae ym mywyd ysgol eich plentyn.

Cyngor arbenigol!

"Mae effaith ymgysylltiad rhieni â gyrfa ysgol myfyriwr yn gyfwerth ag ychwanegu dwy neu dair blynedd ychwanegol i addysg myfyriwr."

Mae ymchwil yn dangos bod plant o bob oed yn gwneud yn well yn yr ysgol pan fydd rhieni a gofalwyr yn gysylltiedig ac yn ymgysylltu â'u haddysg. Mae athrawon yn dweud wrthym mai'r chwe budd pennaf yw:

1. Datblygu ymddiriedaeth a gwella cydberthynas rhwng rhieni ac athrawon
2. Gwella cyflawniad academaidd
3. Gwella ymddygiad
4. Datblygu ethos a diwylliant ysgol a rennir
5. Lleihau absenoldeb

Os ydych yn cefnogi addysg eich plentyn, mae'r ddwy ochr yn elwa. Mae'n dangos iddynt faint yr ydych yn gwerthfawrogi eu haddysg ac mae'n eich helpu i deimlo'n fwy o ran o'u hastudiaethau a'u datblygiad. Dyma ystod eang o gyngor ymarferol i wneud y cyfnod pontio hwn mor hawdd â phosibl ar gyfer eich teulu cyfan.

Paratoi ymarferol

Ar eich marciau, parod, ysgol!

Mae'n debyg bod gennych atgofion byw o'ch dyddiau ysgol o hyd, ond mae llawer wedi newid ers hynny (gwaith cartref codio, unrhyw un?)

Darllenwch bopeth

Gallwch chi ddisgwyl i LOT o wybodaeth ddod eich ffordd, trwy'r post i ddechrau, yna gyda'ch plentyn, trwy e-bost, neu apiau o bosib. Os na welwch ffurflenni caniatâd yn llu, efallai y byddai'n werth gofyn ble maen nhw. Byddwch yn drylwyr, os ceisiwch sgimio drwodd am yr hyn sy'n berthnasol i chi a'ch plentyn efallai y byddwch chi'n colli rhywfaint o wybodaeth allweddol.

Mewngofnodi

Ewch i wefan yr ysgol i ddarganfod mwy o wybodaeth am y cwricwlwm a threfniadau fel systemau cinio, a taliadau heb arian parod. Cofrestrwch i gylchlythyr, apiau a thudalen Facebook yr ysgol.

Sicrhewch eich bod yn gyfarwydd ag unrhyw systemau dysgu ar-lein y gall yr ysgol eu defnyddio ar gyfer gwaith cartref. Cadwch enwau defnyddwyr a chyfrineiriau mewn man diogel.

Yr holl gêr

Bydd angen i chi brynu llyfrau, deunydd ysgrifennu a bag cryf i gario'r cyfan. Bydd yr ysgol yn dweud wrthych ba offer y mae disgwyl i'ch plentyn ei gael pan fydd yn cychwyn. Siaradwch â rhiant sydd â wedi mynd drwy'r cam hwn, os nad ydych yn si r beth sy'n 'hanfodol'. Efallai trefnu i fynd i siopa gydag oedolyn blwyddyn 7 arall i leddfu'ch meddwl.

Darganfyddwch a yw'r CRhA yn cynnal gwerthiant gwisg ail law cyn i'r tymor ddechrau. Mae plant yn dal i dyfu'n gyflym yn yr oedran hwn felly dylech allu codi eitemau sydd bron yn newydd ar ffracsiwn o'r gost – mae'n helpu'r amgylchedd hefyd. Prynwch y darnau y gallwch eu prynu ar y stryd fawr yn gynnar, yn gyffredinol mae yna lawer o gynigion o gwmpas yn gynnar yn yr haf.

Wrth brynu gwisg ysgol, cofiwch y bydd eich plentyn yn tyfu dros yr haf. Prynwch yn gynnar a pheidiwch â'i labelu nes eich bod wedi gwirio'r maint eto ddiwedd mis Awst - bydd y mwyafrif o gyflenwyr yn cyfnewid os nad yw wedi ei wisgo.

Labelwch bopeth.

Dangoswch i'ch plentyn ble mae'r labeli a'u gwneud yn sicr eu bod wedi eu gwnïo neu eu glynu yn rhywle sydd yn hawdd iddynt ddod o hyd iddo.

Gair i gall!

Prynu cylch allwedd gyda chadwyn estynedig i'w chlymu wrth fag eich plentyn er mwyn osgoi colli allweddi locer a drws.

Cyrraedd yr ysgol

I lawer o blant, symud i'r ysgol uwchradd fydd eu tro cyntaf iddynt wneud taith ddyddiol reolaidd ar eu pen eu hunain a gall fod yn frawychus. Y newyddion da yw bod digon y gallwch chi ei wneud i'w helpu i deimlo'n fwy hyderus.

Stop 1 Ymarferwch y daith gyda'ch plentyn trwy ba un bynnag dull cludo y byddant yn ei ddefnyddio, gan gynnwys o leiaf unwaith ar yr adeg berthnasol o'r dydd, i helpu i ragweld ble y gall yr ardaloedd prysur neu'r cyffyrdd anodd fod.

Stop 2 Os ydyn nhw'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, siaradwch â nhw am ble mae'r arhosfan bysiau neu'r orsaf reilffordd a sut y byddan nhw'n cyrraedd yno, pa fws y gallant ei gael, neu ba blatfform i gael y trên, beth i'w wneud os ydyn nhw'n colli eu bws / trên, neu mae wedi'i ganslo neu'n hwyr. Gall sgwrsio â ffrind neu frawd neu chwaer hŷn am yr hyn i'w ddisgwyl ar y bws neu'r trên fod yn ddefnyddiol - cyn belled â'u bod yn deall yr angen i fod yn galonogol!

Stop 3 Ceisiwch ddod o hyd i blant lleol sy'n cychwyn yn yr ysgol a fydd yn cymryd yr un llwybr a gadael iddyn nhw ymarfer y siwrnai gyda'i gilydd. Bydd cydlynu eu teithio yn helpu'ch plentyn a chi i deimlo'n fwy hyderus unwaith y bydd y tymor yn dechrau.

Stop 4 Bydd mwyafrif yr ysgolion wedi cynnal diwrnod blasu yn Nhymor yr haf, felly gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn darganfod yr adeg yno pa fynedfa y dylent ei defnyddio.

Stop 5 Gall mynd i mewn i safle ysgol fawr yn hytrach na maes chwarae cyfarwydd fod yn frawychus i ddechrau. Os nad yw'ch plentyn yn teithio i mewn gyda phlant eraill, ceisiwch drefnu man cyfarfod gyda ffrind ar y diwrnod cyntaf fel y gallant gerdded i mewn gyda'i gilydd.

Mae ysgolion yn ffynhonnell wybodaeth wych. Byddant yn dweud wrthych pa lwybrau bws sydd yn aros yn agos at yr ysgol, a oes unrhyw wasanaethau neilltuol, a llwybrau cerdded a beicio cyffredin. Gallwch gael gwybodaeth am docynnau tymor a sicrhau eich bod yn gwneud cais mewn digon o amser ar gyfer dechrau'r tymor.

Awgrym defnyddiol!

Os ydych yn bwriadu gyrru eich plentyn i'r ysgol, ystyriwch barcio ymhellach i ffwrdd er mwyn iddynt allu cerdded rhan o'r ffordd er mwyn hybu annibyniaeth ac osgoi tagfeydd.

Cadw'n ddiogel

Siaradwch am ddiogelwch gyda'ch gilydd a gwnewch yn siŵr eu bod yn deall y peryglon. Pwysleisiwch yr angen i ganolbwyntio. Mae dim amhariadau yn golygu dim clustffonau, gwrando ar gerddoriaeth, siarad ac anfon negeseuon testun ar ffonau symudol pan fyddant o amgylch traffig. Edrychwch ar ein hawgrymiadau ar fynd i'r ysgol ac yn ôl yn ddiogel yma.

Technoleg Symudol

Yn 11 oed y mae'r rhan fwyaf o blant yn cael ffôn symudol. Gwnewch eich ymchwil a phenderfynwch beth sydd orau i'ch teulu chi. Mae gan ysgolion bolisïau gwahanol amdanynt, felly gwiriwch hynny.

Ystyriwch lawrlwytho ap sy'n eich galluogi i weld ble y maent, fel 'Find My Friends'. Cadwch rifau ffôn mewn argyfwng yn eu bag, rhag ofn iddynt golli eu ffôn a bod angen cysylltu â chi

P'un ai bod gan eich plentyn alergeddau neu beidio, mae'n syniad da canfod a fyddant yn mynychu 'ysgol ddi-gnau'.

Awgrym defnyddiol!

Ydych chi wedi edrych ar gytundeb cartref/ysgol eich ysgol? Mae hwn yn nodi eich cyfrifoldebau chi fel rhiant a'r ysgol o ran yr hyn a ddisgwylir gan eich plentyn.

Paratoi emosiynol

– sut gallwch fod yn gefnogol

Mae eich plentyn ar fin bod yn llawer mwy annibynnol yn gyflym iawn yn ogystal â gorfod delio â threfn newydd a wynebau anghyfarwydd. Dyma rai o'r ffyrdd y gallwch ddechrau helpu eich plentyn i deimlo'n gyffrous am y cyfnod newydd hwn o'u haddysg:

Byddwch yn gadarnhaol

Mae plant fel sbwng, yn amsugno cryn dipyn oddi wrth eu teulu, ffrindiau a'u hathrawon. P'un ai y gwnaethoch chi fwynhau'r ysgol neu beidio, gall siarad yn gadarnhaol amdano gynyddu dyheadau eich plentyn. Canolbwyntiwch ar y profiad cadarnhaol yr ydych chi ei eisiau ar gyfer eich plentyn a'r holl gyfleoedd cyffrous i ddod. Rhowch wybod iddynt nad oes unrhyw derfynau i'r hyn y gallant ei wneud a phwy y gallant fod.

Parhau i siarad

Efallai y byddwch yn teimlo bod eich plentyn yn llai tebygol o siarad â chi pan fyddant yn dod gartref o'r ysgol bob nos. Gall fod angen amser arnynt pan fyddant yn dod gartref, i fynd i fyny'r grisiau i'w hystafell ac ymlacio i ffwrdd o'r holl bobl am dipyn.

Cadwch lygad ar eich plentyn a'u hannog i siarad am eu teimladau. Byddant yn profi ystod enfawr o emosiynau ar yr adeg hon fel cyffro, nerfusrwydd, hapusrwydd a dryswch. Bydd angen sicrwydd arnynt bod yr ymatebion hyn i gyd yn arferol wrth fod mewn sefyllfa newydd. Mae prydau bwyd teuluol ac amser ymlacio yn gyfleoedd gwych i barhau i gyfathrebu.

Enghreifftiau o gwestiynau da:

Sut mae'r athrawon, sut mae'r plant eraill, beth maent yn mwynhau neu ddim yn mwynhau a pham?

Byddwch yn cael cyfres o gwestiynau anodd pan fydd eich plentyn yn dechrau'r ysgol uwchradd neu ôl-gynradd, ac yn llawer cyflymach nag yr oeddech yn ei ddisgwyl neu wedi gobeithio mwy na thebyg. Disgwyliwch gael eich herio o

ran eich gwleidyddiaeth a'r byd. Ond os byddwch yn cadw meddwl agored, gallech ddysgu cryn dipyn hefyd.

Magu hyder

Gall bod mewn ysgol fwy fod yn frawychus i rai plant, felly gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn barod i ymdopi â sefyllfaoedd newydd ac yn gallu ymdrin â hynny. Gweithiwch ar sgiliau sydd yn helpu gyda chadernid, i fod yn gadarnhaol a chael ymagwedd' gwydr hanner llawn' tuag at fywyd, a datblygwch eu cryfderau.

Paratoi cymdeithasol

– byddwch yn barod i gymysgu!

Pwy yw pwy yn yr ysgol?

Mae ysgolion mwy yn golygu mwy o athrawon a mwy o arddulliau dysgu i addasu iddynt. Edrychwch a oes rhestr o athrawon ar gael y gallwch ymgyfarwyddo â nhw. Mae sefydlu perthynas dda gydag athrawon yn ffordd wych o ganfod sut i gefnogi addysg eich plentyn.

Dod i adnabod y rhieni

Achubwch ar unrhyw gyfle i ddod i adnabod rhieni eraill, fel y diwrnod sefydlu, bore coffi ac unrhyw ddigwyddiadau codi arian. Nid er mwyn i'r plant ddod i adnabod ei gilydd yn unig y mae'r rhain, ond yn gyfle i chi gyfarfod ag oedolion eraill yn eich ardal chi a thu hwnt.

Os gallwch greu rhwydwaith o ffrindiau yn yr ysgol, bydd gennych opsiynau trafnidiaeth amgen os yw'r drafnidiaeth gyhoeddus yn torri i lawr neu os yw pethau'n mynd o'i le gyda'ch diwrnod. Gallwch hefyd glywed am bethau sydd yn digwydd yn yr ysgol y mae eich plentyn wedi anghofio dweud wrthych amdanynt, fel taith ysgol, diwrnod dim gwisg ysgol, neu gais i ddod â chacennau neu arian elusen i mewn.

Awgrym defnyddiol!

Gofynnwch a oes grŵp ar y cyfryngau cymdeithasol neu rwydwaith ebost y gallwch ymuno ag ef.

Gwneud ffrindiau newydd

Mae dechrau mewn ysgol newydd, fwy yn gyfle gwych i wneud ffrindiau newydd. Anogwch eich plentyn i deimlo'n optimistaidd am gyfeillgarwch newydd, hyd yn oed os yw rhai ffrindiau ysgol gynradd yn symud i rywle arall.

Atgoffwch eich plentyn fod cyfeillgarwch yn cymryd amser i ddatblygu. Peidiwch â mynd i banig os nad ydynt wedi gwneud ffrind yn syth. Dywedwch wrthynt am ymlacio, cymryd eu hamser a dewis eu ffrindiau yn ddoeth.

Os yw eich plentyn yn nerfus am ffitio i fewn, rhowch sicrwydd iddynt bod pawb yn yr un cwch ac awgrymwch eu bod yn ymuno â chlybiau – fel hynny bydd ganddynt rywbeth yn gyffredin a bydd yn haws i ddechrau sgwrs. Siaradwch â nhw am ffyrdd o ddechrau sgwrs os ydynt yn gweld hyn yn anodd.

Awgrym i fyfyrwyr!

"Unwaith yr oeddwn wedi dechrau, canfuais, o'r myfyrwyr hŷn, fod y rhan fwyaf yn barod iawn i helpu. Mewn gwirionedd, ymunais â chlwb drama'r ysgol, lle'r oedd llawer o blant hŷn. Nid oeddech yn sylwi eu bod yn hŷn am eich bod i gyd yn gweithio gyda'ch gilydd fel cymuned pan fyddwch yn gweithio ar sioe".

Ffitio i fewn

Pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol uwchradd, bydd eich plentyn yn dechrau talu llawer mwy o sylw i'r hyn y mae eu cyfoedion yn ei wneud, ac yn drist iawn, llawer llai o sylw i chi. Byddwch mwy na thebyg yn cael llawer mwy o geisiadau i wneud pethau nad ydych wedi eu caniatáu o'r blaen, a byddwch yn canfod eich hun yn creu rheolau newydd wrth fynd ymlaen.

Mae'r cynnydd mewn hyder ac annibyniaeth a ddaw gydag ysgol uwchradd neu ôl-gynradd yn hyfryd i'w wylio. Mae llawer o bethau y mae angen i chi roi sylw iddynt o hyd, er mwyn eu rhoi ar y trywydd iawn, nid yw mor uniongyrchol. Ar ddiwedd y dydd, mae'n rhaid i chi eistedd yn ôl ychydig a gadael iddynt ddysgu hedfan.

Dywedwch wrth eich plentyn fod bwlio ar unrhyw ffurf yn anghywir a'u bod yn gallu dweud wrthych chi neu oedolyn arall os bydd hyn yn digwydd iddynt. Gall plant ei chael hi'n anodd siarad am fwlio, ond mae arwyddion y gallwch edrych amdanynt a allai awgrymu bod problem. Gallwch fynd i Bullying UK am fwy o gyngor.

Paratoi academaidd
– dysgu'n gyflym iawn

Nid eich plentyn yn unig sydd â llawer i'w ddysgu y tymor nesaf! Mae hwn yn brofiad newydd i bawb, ond peidiwch â phoeni, rydym wedi cael awgrymiadau defnyddiol i'ch helpu chi i gyd i addasu a ffynnu

Gwella eich gwybodaeth

Efallai fydd eich plentyn yn astudio pynciau y cawsoch chi anhawster gyda nhw yn yr ysgol, neu sydd yn hollol newydd i chi. Er y byddant yn gwneud eu gwaith cartref yn annibynnol, efallai eich bod yn teimlo eich bod eisiau deall ychydig mwy am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Ewch trwy eu llyfrau testun. Os oes unrhyw beth yr hoffech wybod mwy amdano, gallwch wneud rhywfaint o ymchwil ar-lein neu wneud cwrs byr a sgwrsio gyda'r athrawon am gymorth i rieni a chanllawiau dysgu. Efallai y bydd sesiynau addysg i deuluoedd a phrosiectau yn cael eu cynnal yn y gymuned leol hyd yn oed

Awgrym arbenigol!

Mae rhai disgyblion yn profi 'gostyngiad pontio' lle mae'r newid i amgylchedd ysgol yn arwain at ostyngiad mewn perfformiad. Nid yw hyn yn anarferol, ond gallwch chi helpu trwy barhau i fod â diddordeb a bod yn rhan o'u dysgu.

Bod yn drefnus

Ffactor allweddol mewn llwyddiant academaidd yw trefn. Gall ychydig o gynllunio arbed cryn dipyn o amser a straen.

Eich rhestr o bethau i'w gwneud

- *Gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn gallu darllen amserlen a map neu gynllun llawr o'u hysgol i ymgyfarwyddo â'r cynllun.*
- *Awgrymwch eu bod yn copïo eu hamserlen – gall rhai ysgolion ymddangos fel pe baent mewn côd – a'i rhoi ar y wal gartref.*
- *Ceisiwch eu cael i ddefnyddio lliwiau gwahanol, gan nodi'r llyfrau a chyfarpar arall sydd ei angen bob dydd, fel dillad chwaraeon ac offerynnau cerdd.*
- *Mae llawer o ysgolion yn gweithredu amserlen dros bythefnos. Os felly, gofynnwch i'ch plentyn labelu pa wythnos yw hi, er mwyn osgoi dryswch.*

Awgrym i fyfyrwyr!

"Pan fyddwch yn cael eich amserlen, gwnewch dri chopi o leiaf: un ar gyfer eich bag, un ar gyfer eich poced ac un dros ben i'w chadw gartref"

Gosod trefn

Gallwch ddisgwyl gwaith cartref o'r dechrau'n deg, felly mae'n werth cytuno ar drefn ymlaen llaw. Gwnewch amserlen gwaith cartref er mwyn creu trefn reolaidd ar gyfer cwblhau gwaith cartref er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau mewn pryd. Pan fyddwch yn gwneud gwaith cartref yn flaenoriaeth, mae'n dangos eich bod yn meddwl bod gwaith ysgol yn bwysig.

Defnyddiwch gynlluniwr wythnosol y teulu i helpu eich plentyn i gadw at eu trefn. Helpwch nhw i ychwanegu eu gweithgareddau arno yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol a digwyddiadau cymdeithasol. Cofiwch ychwanegu amser rhydd. Mae angen amser ar blant i ymlacio a mwynhau eu cyfeillgarwch newydd ac amser i'r teulu.

Dysgwch nhw sut i greu rhestr o bethau i'w gwneud gyda'r darnau o waith cartref sydd eu hangen gyntaf ar y brig. Mae byrddau gwyn yn wych ar gyfer gwneud hyn

Yr oed yma, bydd plant yn dechrau bod angen mwy o breifatrwydd pan fyddant yn paratoi. Ystyriwch drefnu amserlen ar gyfer yr ystafell ymolchi yn y borau fel nad oes unrhyw un yn hwyr am eu bod yn gorfod aros

Awgrym defnyddiol!

Ceisiwch ymwrthod â'r demtasiwn o wneud popeth. Mae angen i'ch plentyn ddysgu i reoli eu hamser yn effeithlon ac ni fyddant yn gwneud hyn os byddwch yn cael popeth yn barod ar eu cyfer.

Amgylchedd dysgu

Crëwch ofod astudio neu ardal dawel lle gall eich plentyn wneud eu gwaith cartref ar amser y cytunir arno. Os oes gennych le ar gyfer desg (a'u bod eisiau un) mae hynny'n wych, ond efallai mai wrth ddesg gludadwy (hynny yw bocs gyda phopeth sydd ei angen ynddo) a bwrdd cegin neu lawr ystafell fyw fydd y lle y bydd eich plentyn fwyaf cynhyrchiol – cyhyd â'ch bod yn gallu cadw'r ardal yn rhydd rhag amhariadau tra'u bod yn gweithio. Ceisiwch fod yn hawdd i gysylltu â chi os oes ganddynt unrhyw gwestiynau

Y disgyblion fel arfer sydd yn gyfrifol am gadw (a chofio!) eu llyfrau eu hunain, sy'n golygu bod angen lle i storio pethau gartref yn aml. Gall set o ddroriau plastig gydag un ar gyfer pob diwrnod, neu focs 'i'w wneud' ac 'wedi ei orffen' helpu gyda hyn a chynorthwyo trefn.

Beth mae plant yn ei ddysgu heddiw?

Bydd pynciau cwricwlwm arferol yn ystod blynyddoedd cyntaf yr ysgol uwchradd ac ôl-gynradd yn cynnwys: Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, hanes, daearyddiaeth, ieithoedd tramor modern, dylunio a thechnoleg, celf a dylunio, cerdd, addysg gorfforol, dinasyddiaeth a chyfrifiadureg.

Os yw eich plentyn i fod mynychu academi, ysgol rydd neu ysgol uwchradd breifat, ni fydd yn rhaid i'r ysgol ddilyn y cwricwlwm cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i academïau ddysgu cwricwlwm eang a chytbwys yn cynnwys Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'n rhaid iddynt hefyd ddysgu addysg grefyddol.

Awgrym defnyddiol!

Mae sawl ffordd o gyflwyno dysgu i fywyd bob dydd. Er enghraifft, os ydych yn cynllunio diwrnod allan, beth am ymweld â rhywle sydd yn cyd-fynd â'u hastudiaethau.

Paratoi ariannol

– rheolaeth ariannol

Gall cost dillad ac offer ar gyfer ysgol newydd eich plentyn fod yn ddrud.

Gwario diogel

Mae rhoi arian cinio i blentyn, am y tro cyntaf efallai, yn gyfle gwych i ddechrau sôn am arbed arian a chael agwedd gyfrifol tuag at arian. Gwnewch yn siŵr eu bod yn cario swm bach o arian ac yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Awgrym defnyddiol!

Edrychwch am unrhyw apiau gwario diogel neu gardiau debyd sydd wedi eu dylunio ar gyfer plant.

Cyllidebu yn ofalus

Dechreuwch gyllidebu nawr a lledaenu'r gost. Fel arfer, siwmperi a blaserau yn cynnwys logo'r ysgol yw'r eitemau drutaf o'r wisg ysgol, yn ogystal ag arian ar gyfer cinio, diodydd a byrbrydau ac unrhyw daliadau am loceri neu unrhyw deithiau ysgol neu glybiau. Gofynnwch a fydd unrhyw beth i'w dalu yn ystod y tymor a'r flwyddyn gyntaf yn ogystal â gofynion y wisg ysgol er mwyn i chi allu cynllunio ymlaen llaw.

Siopa synhwyrol

Canfyddwch pa fath o fag ysgol y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgol yn ei ddefnyddio. Mae cario llyfrau yn golygu na fydd dewisiadau simsan yn parhau. Mae gwarbac yn tueddu i fod yn well

Efallai fydd angen mwy o offer arbenigol ar eich plentyn nag oedd yn yr ysgol gynradd fel cyfrifiannell wyddonol (ydych chi'n cofio sin, cos a tan?) Cofiwch wirio beth fydd ei angen gyda'r ysgol ymlaen llaw.

Mae llawer o ysgolion yn gosod gwaith cartref ar-lein neu'n annog disgyblion i gwblhau gwaith trwy safleoedd rhannu dogfennau diogel

Er nad yw'n hanfodol, argymhellir mynediad at gyfrifiadur a pheiriant argraffu gartref. Gall rhieni ofyn i'r ysgol pa gymorth sydd ar gael gan eu hysgol o ran darparu dyfeisiadau. Mae llawer o ysgolion bellach yn defnyddio gliniaduron a llechi fel mater o drefn.

Fel rhan o'r agenda cynhwysiant digidol er mwyn i fyfyrwyr yng Nghymru gael mynediad at TG, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gael. Mae hyn yn cynnwys meddalwedd y gellir

ei llwytho i lawr yn uniongyrchol o safle Llywodraeth Cymru yn rhad ac am ddim trwy HWB.

Ymuno â'r Gymdeithas Rhieni Athrawon

Mae llawer o bobl sydd â rôl rianta yn dweud wrthym eu bod eisiau gwneud mwy i gefnogi addysg eu plant, ond nid ydynt bob amser yn gwybod sut. Maent yn dweud yn aml eu bod yn teimlo'n llai cysylltiedig â'r ysgol wrth i'w plant fynd yn hŷn, felly mae'r Gymdeithas Rhieni Athrawon (neu Gyfeillion neu rywbeth tebyg) yn ffordd wych o bontio'r bwlch a dod i wybod mwy am eu byd.

Mae cymaint o resymau gwych dros gefnogi eich Cymdeithas Rhieni Athrawon yn yr ysgol uwchradd. Efallai na fyddwch yn cael yr un cyfleoedd i gymdeithasu a dod i adnabod rhieni eraill a staff, ond mae'r Gymdeithas Rhieni Athrawon yn ffordd wych o gadw mewn cysylltiad a datblygu cysylltiadau cefnogol.

Mae angen arian ychwanegol ar ysgolion bob amser a phwyllgor y Gymdeithas Rhieni Athrawon sydd yn penderfynu sut i wario unrhyw arian sydd yn cael ei godi, ac mewn ysgol uwchradd, gallai hyn fod yn cefnogi prosiectau sydd yn cael eu harwain gan fyfyrwyr. Mae digwyddiadau Cymdeithas Rhieni Athrawon yn ffordd boblogaidd o godi arian a dod â'r gymuned ynghyd. Gall eich teulu cyfan gymryd rhan gyda chwisiau ar-lein, sioeau celf rhithiol, arwerthiannau, cystadlaethau pobi, twrnameintiau pêl-droed, cystadlaethau hunluniau a bingo pw carw hyd yn oed! (Ydy, mae yn bodoli!)

Am fwy o awgrymiadau a syniadau am gefnogi addysg eich plentyn, edrychwch ar ein:

Hwb Rhieni: adnodd defnyddiol i unrhyw un â rôl rhianta gyda phlant yn yr ysgol, yn cynnwys cyngor ymarferol, gwybodaeth a syniadau gan rieni, athrawon ac arbenigwyr eraill

E-fwletin Rhieni: gallwch gael diweddariadau rheolaidd yn syth i'ch mewnflwch gyda newyddion, nodweddion a digwyddiadau cyffrous i rieni. Ymunwch i dderbyn yr e-Fwletin Rhieni

Hwb Cymdeithas Rhieni Athrawon: popeth sydd ei angen arnoch i gefnogi, ymuno neu gynnal eich Cymdeithas Rhieni Athrawon eich hun

Cyfryngau Cymdeithasol: Dilynwch Parentkind ar Facebook

Os oes gennych awgrym i'w rannu gyda rhieni eraill, anfonwch neges atom yn parents@parentkind.org